

Rebecca Evans AC/AM  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mick Antoni AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

27 Mawrth 2019

Annwyl Mick,

Diolch ichi am eich llythyr 14 Mawrth at Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch gosod datganiadau ysgrifenedig diwygiedig pan gaiff Offerynnau Statudol y DU eu tynnu'n ôl a'u hailosod. Fi sy'n ymateb gan fod y mater yn ymwneud yn bennaf â rheoli busnes y Llywodraeth yn y Cynulliad ac mae felly'n dod o fewn fy mhortffolio i.

Nid oes proses benodol ar gyfer y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb pan fydd OS Ymadael â'r UE yn cael ei dynnu'n ôl a'i ailosod gan Lywodraeth y DU. Er hynny, gallaf cadarnhau, yn unol â'r ohebiaeth atoch ar 7 Chwefror ar y mater hwn, fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu trefniant ar gyfer SO30C fel bod datganiadau ysgrifenedig yn cael eu gosod pan gaiff Offerynnau Statudol y DU eu tynnu'n ôl a'i hailosod, a hynny am weddill rhaglen OSau mewn perthynas ag Ymadael â'r UE. Mae hyn eisoes wedi digwydd mewn sawl achos. Er enghraifft, cafodd datganiadau ysgrifenedig ei hailgyhoeddi ym Chwefror ar Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 a Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ar ôl iddynt gael eu tynnu'n ôl a'u hailosod gan Lywodraeth y DU.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AC/AM**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.